

Tasg 1

I'r pant y rhed y dŵr

Gair i gall - cywiro gwallau

Darllenwch y darn canlynol, gan danlinellu'r gwallau ac egluro beth sydd angen ei wneud i'w cywiro. Mae 21 gwall yno i gyd.

Mae Gareth Bale, un o chwaraewyr **pel-droed** gorau'r byd, wedi ymuno ag **ymgurch** 'For Luca'. Mae'r elusen yn trio codi £1.5 miliwn o bunnoedd ar gyfer prynu coesau prosthetig i **bachgen pedwar** oed o'r enw Luca Williams, a gollodd ei goesau ar ôl cael meningitis pan oedd yn **tair** oed.

Dechreuodd rhieni Luca, Mo Syed a Sian Williams, yr elusen 'Codi Llaw i Luca,' gan ofyn i enwogion **ysgrifenu'r** geiriau 'For Luca' ar **lledr** eu llaw cyn rhoi **llyn** ar wefan Facebook. Ymysg yr enwogion eraill sydd wedi gwneud hynny mae Olly Murs, Holly Vallance a Sebastian Vettel, Sam Warburton, y chwaraewr **rugby**, **yn ogystal ar** pêl-droediwr o'r **ariannin**, Diego Maradona.

Mae rhieni Luca wrth eu bodd **âr** ymateb. 'Roedd Luca bron â marw oherwydd y meningitis,' meddai Sian, ei fam. 'Fe wnaeth **eu goesau troi'n** ddu o'i draed i'w gluniau.' Cafodd ei **rithro** i'r ysbyty ac ar ôl trio popeth arall, doedd gan y **feddygon** ddim dewis ond gwneud y llawdriniaeth ar **ei choesau**.

'Mae Luca'n werth y byd i **gid**, meddai ei dad, Mo Syed. 'Mae'n dod **a gwen** i'n **gwynebau** bob dydd.'

	GWALL	CYWIRIAD	PROBLEM
1.	pel-droed	pêl-droed	angen to bach ar yr 'e'
2.	ymgurch	ymgyrch	sillafiad anghywir
3.	bachgen	fachgen	mae enw gwrywaidd yn treiglo'n feddal ar ôl 'i'
4.	pedwar	pedair	ffurf fenywaidd y rhif sy'n dilyn y gair 'oed'
5.	yn tair	yn dair	enw benywaidd unigol sy'n treiglo'n feddal ar ôl arddodiad
6.	ysgrifenu	ysgrifennu	sillafiad anghywir
7.	lledr	gledr	sillafiad anghywir a'r ystyr yn wahanol
8.	llyn	llun	sillafiad anghywir sy'n golygu bod yr ystyr yn wahanol
9.	rugby	rygbi	sillafiad anghywir - y gair saesneg yw 'rugby'
10.	yn ogystal ar	yn ogystal â'r	angen to bach ar yr 'a' ar ôl 'ogystal' a chollnod i ddangos bod llythyren ar goll o'r 'yr'
11.	ariannin	Ariannin	angen prif lythyren ar gyfer enw gwlad
12.	â'r	â'r	angen collnod i ddangos bod llythyren ar goll o'r 'yr'
13.	eu goesau	ei goesau	coesau un person ydyn nhw, felly mae angen yr 'ei' unigol
14.	troi'n	droi'n	angen treiglo ar ôl y ferf 'gwnaeth'
15.	ei rithro	ei ruthro	sillafiad anghywir
16.	feddygon	meddygon	dydy gair lluosog gwrywaidd ddim yn treiglo ar ôl y fannod
17.	ei choesau	ei goesau	mae'r 'ei' gwrywaidd yn achosi treigladd meddal
18.	gid	gyd	sillafiad anghywir
19.	a	â	mae angen to bach ar yr 'a' sy'n dilyn 'dod'
20.	gwen	gwên	sillafiad anghywir; mae 'gwen' yn golygu 'gwyn'
21.	gwynebau	hwynebau	does dim angen 'g' ar ddechrau'r gair 'wyneb'